**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 18 Ionawr 2018 am 10.00am**

**Yn Bresennol:** Y Cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| C Anderson | P Downing | V M Evans |
| S J Gallagher | P Lloyd | C L Philpott |
| B J Rowlands | L G Thomas | L V Walton |

| **Swyddog** | |
|---|---|
| A Evans | Uwch-swyddog Iechyd yr Amgylchedd |
| C James | Uwch-swyddog Iechyd yr Amgylchedd |
| P Livingstone | Arweinydd Tîm |
| S Richards | Prif Gyfreithiwr |
| L Thomas | Uwch-gyfreithiwr |
| S Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorwr: J P Curtice a H M Morris

---

## 77 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

Y Cynghorydd S J Gallagher – Cofnod Rhif 81 - Personol a Rhagfarnol – Trwyddedu HMO – Deddf Tai 2004, Statws Person Addas a Phriodol – mae AL yn gymydog. Gadawodd y Cynghorydd S J Gallagher cyn ystyried yr eitem hon.

Y Cynghorydd L V Walton – Cofnod Rhif 81 - Personol a Rhagfarnol – Trwyddedu HMO – Deddf Tai 2004, Statws Person Addas a Phriodol – rwyf yn adnabod AL drwy ei fwytai teuluol. Gadawodd y Cynghorydd L V Walton cyn ystyried yr eitem hon.

## 78 Gwahardd y Cyhoedd

Gofynnwyd i'r Pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 79 Trwyddedu HMO - Deddf Tai 2004, Statws Person Addas a Phriodol - PA.

Rhoddwyd manylion cefndir yr achos gan yr Arweinydd Tîm o ran Trwyddedu HMO, Deddf Tai 2004 a Statws Person Addas a Phriodol mewn perthynas â PA.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

Esboniodd PA yr amgylchiadau sy'n ymwneud â'r collfarnau ac atebodd gwestiynau aelodau.

**Penderfynwyd:**

1. Nad oedd PA yn berson addas a phriodol at ddibenion a64 Deddf Tai 2004:
2. **Gwrthod** ceisiadau PA am ddwy drwydded HMO, a
3. **diddymu** trwydded HMO bresennol PA.

**Rheswm dros y Penderfyniad**

Roedd y Pwyllgor o'r farn y dylai profiad blaenorol PA fel deiliad trwydded HMO fod wedi ei rwystro rhag gwneud y camgymeriadau a wnaed ganddo ac a arweiniodd at ei gollfarnau tai. Ni chafodd y Pwyllgor ei argyhoeddi gan dystiolaeth lafar PA fod trefniadau rheoli boddhaol ar waith yn yr HMO a chredodd ei fod yn cymryd ymagwedd adweithiol tuag at reoli yn hytrach na rhagweithiol.

## 80 Trwyddedu HMO - Deddf Tai 2004, Statws Person Addas a Phriodol - PW.

Rhoddwyd manylion cefndir yr achos gan yr Arweinydd Tîm o ran Trwyddedu HMO, Deddf Tai 2004 a Statws Person Addas a Phriodol mewn perthynas â PW.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

Esboniodd PW yr amgylchiadau sy'n ymwneud â'r cais ac atebodd gwestiynau aelodau.

**Penderfynwyd** nad oedd PW yn berson addas a phriodol at ddibenion a64 Deddf Tai 2004 a **diddymu'r** trwyddedau HMO mewn perthynas â'r eiddo a restrwyd ar dudalen 23 yr adroddiad.

**<u>Rhesymau dros y Penderfyniad</u>**

Penderfynodd y Pwyllgor nad oedd PW yn berson addas a phriodol at ddibenion a64 Deddf Tai 2004 am y rhesymau canlynol:

Roedd y Pwyllgor o'r farn y dylai profiad blaenorol PW fel deiliad trwydded HMO fod wedi ei rwystro rhag gwneud y camgymeriadau a wnaed ganddo ac a arweiniodd at ei gollfarnau tai. Ni chafodd y Pwyllgor ei argyhoeddi gan dystiolaeth lafar PW fod trefniadau rheoli boddhaol ar waith yn yr HMO a chredodd ei fod yn cymryd ymagwedd adweithiol tuag at reoli yn hytrach na rhagweithiol.

## 81 Trwyddedu HMO - Deddf Tai 2004, Statws Person Addas a Phriodol - AL.

Rhoddwyd manylion cefndir yr achos gan yr Arweinydd Tîm o ran Trwyddedu HMO, Deddf Tai 2004 a Statws Person Addas a Phriodol mewn perthynas â AL.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

Esboniodd cynrychiolydd cyfreithiol AL, Mr S, yr amgylchiadau a oedd yn berthnasol i'r euogfarnau, gan ddarparu lliniariad manwl ar ran ei gleient.

**Penderfynwyd** nad oedd AL yn berson addas a phriodol at ddibenion a64 Deddf Tai 2004, a **diddymu** trwydded HMO bresennol AL a phum cais am drwydded mewn perthynas â'r pum eiddo cyntaf a restrir ar dudalen 32 yr adroddiad.

**Rhesymau dros y Penderfyniad**

Penderfynodd y Pwyllgor nad oedd AL yn berson addas a phriodol at ddibenion a64 Deddf Tai 2004 am y rhesymau canlynol:

Roedd y Pwyllgor o'r farn y dylai profiad blaenorol AL fel deiliad trwydded HMO fod wedi ei rwystro rhag gwneud y camgymeriadau a wnaed ganddo ac a arweiniodd at ei gollfarnau tai. Ni chafodd y Pwyllgor ei argyhoeddi gan dystiolaeth lafar AL fod trefniadau rheoli boddhaol ar waith yn yr HMO a chredodd ei fod yn cymryd ymagwedd adweithiol tuag at reoli yn hytrach na rhagweithiol.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.45 pm

**Cadeirydd**